

Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Rhieni/Gofalwyr

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

Beth ydi Grŵp Craidd?

Grŵp Craidd yw grŵp o bobl sydd â rhan allweddol i'w chwarae gyda'ch plentyn/plant a'ch teulu.

Mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, bydd yr unigolion sy'n bresennol yn y gynhadledd yn rhannu gwybodaeth am eich amgylchiadau teuluol. Yna byddant yn penderfynu a ydynt yn teimlo bod eich plentyn/plant yn ddiogel neu a ydynt yn teimlo y gallai eich plentyn/plant ddod i niwed sylweddol.

Os nad ydynt yn teimlo bod eich plentyn/plant yn ddiogel, caiff Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ei roi ar waith a bydd angen cynnal cyfarfod Grŵp Craidd. Bydd aelodau'r Grŵp Craidd wedi cael eu nodi yn ystod y Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant Gychwynnol er y gall pobl eraill ymuno â'r Grŵp Craidd fel y bo'n briodol.

Rydych chi'n rhan bwysig o'r Grŵp Craidd. Efallai na fydd hi'n bosibl cytuno ar bob dim bob amser, ond fe wrandewir ar eich barn ac fe ddangosir parch tuag atoch.

Yn dibynnu ar oed eich plentyn/plant ac os ydynt yn deall, gallant hefyd fod yn aelod o'r Grŵp Craidd.

Pwy fydd yn y Grŵp Craidd?

Fel arfer bydd y Grŵp Craidd yn cynnwys grŵp bach o bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chi a/neu eich plentyn/plant. Gallai hyn gynnwys athrawon, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cyffuriau ac alcohol a bydd yn cynnwys Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant bob amser.

Yn gyffredinol, fel rhiant neu ofalwr, byddwch chi'n rhan o'r Grŵp Craidd. Os nad yw hyn yn wir, fe drafodir y rhesymau dros beidio eich cynnwys yn y Grŵp Craidd gyda chi cyn y cyfarfod cyntaf.

Beth mae'r Grŵp Craidd yn ei wneud?

Mae Grŵp Craidd yn ymwneud â chi a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plentyn/plant a theulu, gan gydweithio i amddiffyn eich plentyn/plant.

Prif swyddogaeth y Grŵp Craidd yw cyfarfod i drafod Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth eich plentyn/plant, nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn gwneud

Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Rhieni / Gofalwyr

newidiadau cadarnhaol i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel rhag niwed sylweddol a mesur cynnydd. Bydd y newidiadau sydd eu hangen yn helpu i greu a datblygu'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth. Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o'r Grŵp Craidd i gydweithio i sicrhau bod y newidiadau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'r Grŵp Craidd hefyd yn gyfrifol am gwneud asesiad arbenigol fel y bo'n briodol, sy'n nodi unrhyw anghenion pellach sydd gennych chi neu'ch plentyn/plant, a'ch gallu i ddiwallu anghenion eich plant. Y Gweithiwr Cymdeithasol sydd yn gyfrifol am gwblhau'r asesiad hwn fel rheol.

Beth ydi Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth?

Mae'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn nodi'r hyn y mae angen i'r Grŵp Craidd ei wneud er mwyn lleihau'r risg o niwed sylweddol i'ch plentyn/plant ac i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel. Bydd y cynllun yn cynnwys pethau megis:-

- Pethau y mae angen i chi eu gwneud i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel.
- Pwy fydd yn ymwneud â'ch teulu.
- Pryd a ble byddwch yn gweld gweithwyr proffesiynol.
- Beth y mae angen i weithwyr proffesiynol ei wneud a phryd.

Bydd cynnydd y cynllun yn cael ei drafod ym mhob Grŵp Craidd ac mewn Cynadleddau Achos Adolygu Amddiffyn Plant yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniad ynghylch a ddylai eich plentyn/plant barhau i gael Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.

Noder, os yw eich plentyn/plant yn aros oddi cartref dros nos, yna dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Allan o Oriau cael gwybod cyn i'r trefniant cymryd lle. Cysylltwch â:-

Gwasanaethau Addysg a Phlant – 01824 712800

Gwasanaeth Allan o Oriau (Tîm Dyletswydd Argyfwng)) - 0845 0533 116

Pa mor aml y mae'r Grŵp Craidd yn cwrdd?

Bydd y Grŵp Craidd yn cyfarfod o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Bydd o leiaf 2 gyfarfod Grŵp Craidd rhwng Gynhadledd Achos Gychwynnol a'r Adolygiad cyntaf. Bydd y cyfarfod yn digwydd bob tua 6 wythnos hyd at 3 mis ar ôl i enw eich plentyn/plant gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Bydd y Grŵp Craidd yn gyfrifol am wneud argymhelliad ynghylch a fydd enw eich plentyn/plant yn parhau i fod ar y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth neu beidio. Bydd hyn yn dibynnu ar p'un a yw'r Grŵp Craidd wedi bod yn gweithio'n dda i wneud cynnydd

Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Rhieni / Gofalwyr

gyda'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yng Nghynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyfarfod Grŵp Craidd?

Byddwch chi ac aelodau eraill y Grŵp Craidd yn derbyn cynllun wedi'i ddiweddarau a chofnod o'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod er mwyn i bawb ddeall beth y dylent fod yn ei wneud, ac erbyn pryd.

Beth os nad wyf yn fodlon gyda'r cyfarfod?

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r cyfarfod, dylech siarad â Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant, Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant neu Swyddog Cwynion Gwasanaethau Addysg a Phlant.

Cwynion

Os ydych am wneud awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:-

Rhif rhadffôn: 0800 032 1099

E-bost: ssdcomments@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at: Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3DP

We: sirddinbych.gov.uk/eichllais

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.